# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 23 Ebrill 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(125)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.23

### 3. Datganiad gan y Prif Weinidog: Adolygiad o Wasanaethau Newyddenedigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dechreuodd yr eitem am 14.37

### 4. Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter

Dechreuodd yr eitem am 15.09

### 5. Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardrethi Busnes

Dechreuodd yr eitem am 15.41

### 6. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ofal Heb ei Drefnu

Dechreuodd yr eitem am 16.15

### 7. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid

Dechreuodd yr eitem am 16.54

## 8. Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Diddymu'r cyrff sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol - gohiriwyd tan 30 Ebrill 2013

Gohiriwyd yr eitem tan 30 Ebrill 2013.

## 9. Dadl: Gofal Diwedd Oes

Dechreuodd yr eitem am 17.24

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5209 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i wella gwasanaeth gofal diwedd oes; a

2. Yn nodi Law yn Llaw at Iechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal diwedd oes o safon uchel yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod cyfraniad y mudiad hosbis, a darparwyr gofal eraill, tuag at ofal diwedd oes o safon uchel.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod pwysigrwydd parchu dymuniadau cleifion wrth ddarparu gofal diwedd oes.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r manteision y gall taliadau uniongyrchol eu cynnig i wella profiad y claf ar gyfer pobl sy'n cael gofal diwedd oes.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu y bydd toriadau termau real i'r gyllideb iechyd yn llesteirio'r cynnydd o ran gwella gofal diwedd oes yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu'i chyllidebau i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 5 | 33 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5209 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i wella gwasanaeth gofal diwedd oes;

2. Yn cydnabod pwysigrwydd parchu dymuniadau cleifion wrth ddarparu gofal diwedd oes;

3. Yn cydnabod cyfraniad y mudiad hosbis, a darparwyr gofal eraill, tuag at ofal diwedd oes o safon uchel; a

4. Yn nodi Law yn Llaw at Iechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18.21

## 10. Dadl Fer - gohiriwyd ers 20 Mawrth 2013

Dechreuodd yr eitem am 18.24

**NDM5208 Ken Skates (De Clwyd):** Y tu hwnt i Fae Caerdydd - Rôl newidiol cyfryngau lleol a rhanbarthol ledled Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:49

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 24 Ebrill 2013**